



Darlledu Gwasanaeth
Cyhoeddus:
Adroddiad Blynyddol 2009

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2009

Cyflwyniad

Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i asesu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus penodedig, wedi'u cymryd gyda'i gilydd, o ran cyflwyniad y dibenion gwasanaeth cyhoeddus a nodwyd yn Neddf Cyfathrebiadau 2003. Rydym wedi defnyddio'r methodoleg a ddatblygwyd yn ein hadolygiad DGC cyntaf.

Hwn yw'r trydydd yn ein cyfres o Adroddiadau Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, sylfaen tystiolaeth ystadegol Ofcom ar gyfer asesu cyflwyniad darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC). Y darlledwyr DGC penodedig yw'r BBC, Channel 3/ITV1, GMTV, Channel 4, S4C a Teletext¹. Diben yr adroddiad yw darparu sylfaen tystiolaeth diweddaraf o gyflwyniad cyfredol cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y DU a rhoi cyfrif ffeithiol o oriau darlledu, ffigurau gwyllo a barn cynulleidfa am y sianeli dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym hefyd wedi cynnwys rhywfaint o ffigurau gwariant am y tro cyntaf i ddangos tueddiadau mewn buddsoddiad mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

Bu newidiadau enfawr yn nhirwedd cyfryngau'r DU ers cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol DGC cyntaf oherwydd cynnydd mewn darnio cynulleidfa a phwysau sylweddol ar reffeniw hysbysebu mewn darlledu. O ganlyniad, fe wnaethom gomisiynu ein hail adolygiad DGC un flwyddyn ynghynt na'r gofyniad statudol, gyda'r datganiad terfynol, *Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf*, yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2009.

Yn *Rhoi Gwylwyr yn Gyntaf* fe wnaethom argymhellion i'r llywodraeth ac i'r senedd dros gynnal argaeledd cyffredinol cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar draws amrediad o gyfryngau digidol. Roedd y rhain yn cynnwys ail gydbwysu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus ar draws y sector; ar un llaw, sicrhau dyfodol economaidd sefydliadau cryf sydd â dibenion cyhoeddus wrth eu calon (BBC a Channel 4); ar y llaw arall, rhyddhau rhwydweithiau masnachol tra'n cadw ymrwymïadau gwasanaeth cyhoeddus cymedrol yn gyson gyda gwerth masnachol trwyddedau. Fe wnaethom hefyd amlygu'r sialensau neilltuol oedd yn wynebu darpariaeth masnachol rhaglennu newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau, rhaglennu i blant hŷn a rhaglennu heb fod yn newyddion yn y gwledydd.

Ers hynny mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei adroddiad *Prydain Ddigidol*, yn nodi ei ymateb i'n hargymhellion, yn cynnwys cynigion peilot ar gyfer consortia newyddion lleol i ddarparu newyddion yn y rhanbarthau yn Lloegr ac yn y gwledydd datganoledig fel ffynhonnell arall i'r BBC. Nododd yr adroddiad ymgynghoriad hefyd ar agor elfen gynwysedig, cystadleuol o'r ffi trwydded teledu ar gyfer cyllido newyddion lleol a defnydd potensial arall.

Mewn amgylchedd economaidd heriol mae'r Adroddiad Blynyddol DGC 2009 yn dangos dirywiad parhaus mewn buddsoddiad mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar y pum prif sianel DGC gyda gwariant cynnyrch gwreiddiol rhediad cyntaf i lawr ychydig dan 15% ers 2004 a gwyllo i lawr o swm tebyg. Ac eto dengys

¹ Ar 16 Gorffennaf 2009 cyhoeddodd y Daily Mail & General Trust plc ei fod yn bwriadu rhoi terfyn ar ddarlledu'r gwasanaethau Teletestun analog a nifer o'i wasanaethau teledu digidol ym mis Ionawr 2010

tystiolaeth bod pobl yn gwerthfawrogi cynnwys DGC yn fwy nag erioed, gyda chyfleoedd cynyddol i ddefnyddio cynnwys mewn ffyrdd sydd yn addas iddyn nhw, boed trwy gyfrwng recordwyr fideo digidol, BBC iPlayer neu'r amrediad cynyddol o wasanaethau yn ôl y galw sydd ar gael ar deledu ac ar y rhyngwyd.

Gyda newidiadau cyflym yn natur y modd y caiff DGC ei gyflwyno, bydd angen i'r Adroddiad DGC blynyddol addasu ei fethodoleg mesur yn y dyfodol i adlewyrchu ffurfiau newydd o fynediad a defnydd.

Crynodeb Gweithredol

Gwariant, cynnyrch a gwylio

Mae gwariant ar yr holl raglennu rhwydwaith gan y pum prif sianel DGC wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf o 10%, gan ostwng o gyfanswm o £3,110 miliwn yn 2004 i £2,799m yn 2008. O fewn y ffigur hwn, tra bod gwariant ar ail ddarlediadau a rhaglenni wedi'u caffael wedi cynyddu, mae'r swm ar raglenni gwreiddiol rhediad cyntaf wedi gostwng o £339m ers 2004 i £2,314m yn 2008, gostyngiad mewn termau real o ychydig dan 15%².

Ers 2004, mae cyfanswm gwariant ar yr holl raglenni a ddarledwyd wedi gostwng ar y rhan fwyaf o'r pum prif sianel DGC ac eithrio Five, lle y cynyddodd gwariant o ychydig dan 1%. Gostyngodd gwariant ar BBC One a BBC Two gyda'i gilydd o 13% tra bod gwariant ar draws y sianeli masnachol (ITV1³, Channel 4 a Five) wedi gostwng o 8%.

Swm y rhaglenni gwreiddiol rhediad cyntaf ar y pum prif sianel DGC yn 2008 oedd 33,177 awr y flwyddyn; gostyngiad bychan ar y lefelau a welwyd yn 2004 (o 1099 oriau neu 3%).

Yn erbyn y cefndir hwn o ostyngiad mewn gwariant ac oriau o raglennu gwreiddiol rhediad cyntaf, syrthiodd oriau gwylio cyffredinol ar y pum prif sianel DGC o 15% rhwng 2004 a 2008, ar 2.3 awr y diwrnod fesul person yn 2008. Gwelwyd gostyngiadau ar gyfer pob grŵp oedran ac roedd fwyaf ymysg plant a phobl 44 oed ac iau.

Y cyd-destun ehangach yw na fu unrhyw ostyngiad mewn oriau gwylio cyffredinol yr holl sianeli teledu, wedi'u cymryd gyda'i gilydd, ar gyfer y gwyliwr cyffredinol o 2004 i 2008. Ac o 2007 i 2008 cynyddodd gwylio unrhyw sianel deledu i bob grŵp oedran, ac eithrio y rhai rhwng 16 i 24 oed.

Dirywiodd cyfran gwylio cyfun y pum prif sianel DGC o 75% yn 2004 i 61% yn 2008. Ar amseroedd brig dirywiodd o 12 pwynt canran o 80% yn 2004 i 68% yn 2008. ITV1 oedd â'r gostyngiad mwyaf mewn cyfran amser brig o 29% i 23% a bu gostyngiad o 3% hefyd yn BBC One dros y cyfnod hwn. Yn hanesyddol mae ITV1 wedi cyflawni mwy o gyfran gwylio amser brig na BBC One ond yn 2008 roedd cyfran amser brig BBC One yn 24% a chyfran ITV1 yn 23%.

Ochr yn ochr gyda gostyngiadau mewn gwylio'r pum prif sianel DGC bu cynnydd cyson mewn cyrhaeddiad wythnosol cyffredinol sianeli portffolio DGC gyda'i gilydd (DGC a masnachol) ers 2004; o 53% yn 2004 i 69% yn 2008.

Cynnyrch a gwylio'r genres allweddol

Newyddion a Materion Cyfoes

² Nid yw'r ffigurau'n cynnwys rhaglenni'r gwledydd/rhanbarthau.

³ Trwy gydol y ddogfen hon cyfeiriwn at drwyddedai rhabnbarthol Channel 3 yn 171 y termau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredinol: ITV1 neu yn syml ITV. Ond ni chaiff y termau hyn eu defnyddio o fewn y gwledydd datganoledig. Cyfeirir at Channel 3 fel STV yn ngogledd a chanolbarth yr Alban, UTV yng Ngogledd Iwerddon ac ITV1 Wales yng Nghymru. Lle mae'n briodol felly cyfeiriwn at STV, UTV ac ITV1 Wales ar wahân.

Dangosodd gwariant ar raglenni rhwydwaith Newyddion a Materion Cyfoes⁴ gan y pum prif sianel DGC ostyngiad o £39m neu 14%, o £289m yn 2004 i £250m yn 2008.

Syrthiodd swm Newyddion rhwydwaith DU/cenedlaethol ar draws y diwrnod cyfan o 7% rhwng 2005⁵ a 2008. Cynyddodd cynnyrch Newyddion amser brig yn 2008 i lefel yn agosach at yr hyn a welwyd yn 2005 (901 awr yn 2008 o'i gymharu â 928 awr yn 2005) ar ôl dwy flynedd o gynnyrch is. Roedd hyn wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd yn narpariaeth Newyddion amser brig ITV 1 gydag ail gyflwyno *News at Ten*.

Syrthiodd gwylio Newyddion DU/cenedlaethol ar y pum prif sianel DGC o 9% rhwng 2004 a 2008. Y gostyngiad mwyaf oedd ar gyfer ITV 1 (i lawr o chwe awr neu 21%)

Mae cynnyrch Newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau yn amrywio yn ôl ardaloedd:

- Yn Lloegr, tra bu cynnydd rheolaidd yn swm rhaglennu Newyddion a Materion Cyfoes y gwledydd/rhanbarthau y BBC rhwng 2004 a 2008, roedd y swm ar ITV yn parhau'n weddol sefydlog dros y cyfnod er gwaethaf gostyngiadau yn 2006 a 2007.
- Yn yr Alban syrthiodd Newyddion a Materion Cyfoes y gwledydd/rhanbarthau STV o 22% rhwng 2004 a 2008.
- Yng Nghymru, gostyngodd y BBC ei gynnyrch Newyddion a Materion Cyfoes y gwledydd/rhanbarthau a ddarllledwyd o 20% rhwng 2004 a 2008 tra bod cynnyrch ITV1 wedi parhau'n weddol sefydlog.
- Yng Ngogledd Iwerddon cynyddodd y BBC swm y Newyddion a Materion Cyfoes gwledydd/rhanbarthau a ddarllledwyd o 20% rhwng 2004 a 2008 tra bod UTV wedi gostwng cynnyrch o 14%.
- Gostyngodd cyfran rhwydwaith ar gyfer Newyddion gwledydd/rhanbarthau Channel 3 o 22% yn 2004 i 19% yn 2008. Roedd cyfran Newyddion gwledydd/rhanbarthau'r BBC i lawr ychydig, o 30% yn 2004 i 28% yn 2008.

Rhaglennu Ffeithiol

Mae gwariant ar raglenni rhwydwaith⁶ gan y pum prif sianel DGC wedi gostwng yn llai serth ar gyfer rhaglenni Ffeithiol nag ar gyfer y rhan fwyaf o genres eraill, o 4% neu £17m.

Cafwyd cynnydd yn swm y cynnyrch Ffeithiol ar draws y pum prif sianel DGC a BBC Three a Four, rhwng 2004 a 2008 – ac ers 2007 yn arbennig. Cafodd y cynnydd dros y tair blynedd diwethaf ei yrru yn bennaf gan gynnydd mawr yn swm rhaglennu Ffeithiol Arall (cynnydd o 52% ers 2006) er bod Ffeithiol Arbenigol a Ffeithiol Adloniant wedi cynyddu (o 4% a 7% fel ei gilydd dros y cyfnod hwn)

Cynyddodd Five yn arbennig ei gynnyrch Ffeithiol Arbenigol o 2006 i 2008 (o 84%). Roedd hyn yn cynnwys ail ddarlllediadau o raglenni dogfen hanes naturiol a rhaglenni

⁴ Nid yw hyn yn cynnwys rhaglennu gwledydd/rhanbarthau.

⁵ Nid yw'r gyfres ddata yn cynnwys 2004 gan nad oedd modd cymharu'r ffigurau oherwydd newidiadau mewn dyraniad rhaglenni i'r genres Newyddion a Materion Cyfoes.

⁶ Nid yw hyn yn cynnwys rhaglennu gwledydd/rhanbarthau.

dogfen eraill yn arbennig. Gostyngodd y BBC swm ei Ffeithiol Arbenigol o 7% dros yr un cyfnod..

Gostyngodd gwylio Ffeithiol Arbenigol ar y sianeli DGC o 21% rhwng 2004 a 2008. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf amlwg mewn oriau gwylio Ffeithiol Arbenigol ar gyfer BBC One (o wyth i bum awr y flwyddyn)

Rhaglennu Plant

Syrthiodd oriau gwreiddiol DU rhediad cyntaf o raglenni Plant a ddarledwyd ar y pum prif sianel DGC ac ar CBeebies/CBBC o 51% rhwng 2004 a 2008. Syrthiodd buddsoddiad y sianeli hyn mewn rhaglennu plant gwreiddiol rhediad cyntaf o ychydig dros un rhan o dair rhwng 2004 a 2008 gyda gwariant gan y DGC masnachol i lawr o £42m i £11m.

Cafwyd gostyngiad hefyd yng nghanran gwylio y genre Plant ar y pum prif sianel DGC ymysg plant (32% yn 2004 i 12% yn 2008). Er gwaethaf cynnydd mewn gwylio ar sianeli plant digidol y BBC (o 15% yn 2004 i 24% yn 2008) cafwyd gostyngiad cyffredinol yng nghanran y gwylio ar y pum prif sianel DGC a sianeli digidol y BBC gyda'i gilydd (47% yn 2004 i 36% yn 2008).

Effaith Cynulleidfa

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwylio'r pum prif sianel DGC roedd y canran o gynulleidfa DGC oedd yn ystyried gwerth sianeli DGC gyda'i gilydd yn uchel yn fwy yn 2008 nag yn o leiaf un o'r ddwy flynedd flaenorol, ar draws bron yr holl ddatganiadau ymchwil sydd yn adlewyrchu dibenion a nodweddion DGC.

Rhoddodd gwylwyr rheolaidd fwy o farn cadarnhaol am sianeli *unigol* ar gyfer nifer o'r datganiadau ymchwil yn 2008, o'i gymharu â 2007 a 2006. Er enghraifft bu cynnydd yng nghanran y gwylwyr rheolaidd oedd yn ystyried gwerth sianeli yn uchel am dair neu ragor o'r pum prif sianel ar 11 allan o 17 o ddatganiadau yn 2008, o'i gymharu â 2006 a 2007.

Ond nid oedd yr holl ddatganiadau yn dangos newidiadau cadarnhaol mor gyffredinol mewn barn:

- *Mae ei Newyddion gwledydd/rhanbarthol yn darparu amrediad da o newyddion o ansawdd da am fy nghenedl/rhanbarth.* Ni welodd yr un sianel gynnydd mewn cyfraddau ymysg gwylwyr rheolaidd dros amser mewn unrhyw genedl.
- *Ar wahân i'r Newyddion, mae'n darparu amrediad da o raglenni o ansawdd da am fy nghenedl.* Ni welodd yr un sianel gynnydd mewn cyfraddau ymysg gwylwyr rheolaidd dros amser mewn unrhyw genedl.
- *Dwi'n ymddiried yn y sianel hon.* Dim ond BBC Two welodd gynnydd yng nghanran y gwylwyr rheolaidd oedd yn cyfrif y sianel yn uchel ar hyn.
- *Deniadol – mae'n dangos y rhaglenni dwi eisiau eu gwyllo.* Dim ond Five a gynyddodd ei ganran o wylwyr rheolaidd oedd yn cyfrif y sianel yn uchel ar hyn tra bod BBC One wedi gweld gostyngiad yn y mesur hwn.

Perfformiad Sianel DGC

Mae BBC One yn cadw ei gryfderau craidd yn berthynol i ddiben 1 a'i allu i *helpu gwylwyr i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw a bod â rhaglenni newyddion dibynadwy.*

Roedd BBC Two yn parhau i gael ei gyfrif yn uchel gan ei wylwyr rheolaidd ar nifer o nodweddion ac elfennau diben 2 – *annog gwybodaeth a dysgu*.

Nid oedd ITV 1 yn dangos yr un raddfa o welliant â sianeli eraill ar ddatganiadau dibenion a nodweddion rhwng 2007 a 2008 gan gynyddu ei gyfradd yn unig ar nodweddion *ansawdd*.

Cryfhaodd Channel 4 ei gyfraddau ymysg gwylwyr rheolaidd ar rai o'i fesurau allweddol yn cynnwys *rhaglenni gyda syniadau newydd a gwahanol ymagweddau ac yn heriol – yn dangos rhaglenni sydd yn gwneud i mi aros a meddwl a chynyddu diddordeb gwylwyr mewn pynciau neilltuol*. Daeth y newidiadau cadarnhaol hyn â Channel 4 at neu yn uwch na'r sianeli eraill gyda chryfderau yn y meysydd hyn.

Ni wnaeth Five gryfhau ei gyfraddau ar unrhyw un o'r dibenion a'r nodweddion ymysg ei wylwyr rheolaidd rhwng 2007 a 2008 er fe gafodd gyfraddau mwy cadarnhaol ar y mwyafrif o nodweddion o 2006.

Wrth i BBC Three a BBC Four ddod yn fwy sefydledig mae barn gwylwyr rheolaidd am y sianeli hyn wedi cryfhau ar draws bron pob agwedd o ddibenion a nodweddion DGC. Ar nifer o fesurau yn 2008 mae barn gwylwyr rheolaidd o'r sianeli hyn ar yr un lefel, neu yn gryfach na'r cyfraddau a gyflawnwyd gan y pum prif sianel DGC.

Derbyniodd y sianeli Plant penodedig, CBBC a CBeebies, gyfraddau uchel ar *gynnig amrediad eang o raglenni o ansawdd uchel ac wedi'u gwneud yn y DU ar gyfer plant* gan rieni plant sydd yn eu gwyllo'n rheolaidd; roedd 71% yn ystyried gwerth CBBC yn uchel ac 82% yn ystyried gwerth CBeebies yn uchel ar y mesur hwn yn 2008.

Datblygiadau marchnad teledu DU

Mae'r farchnad deledu DU yn newid yn gyflym gyda'r defnydd parhaus o deledu digidol, defnydd DVRs, defnydd o fideo yn ôl y galw (VoD), argaeledd cynnwys ar-lein ac argaeledd a defnydd HD.

Mae arwyddion bod teledu digidol a gwyllo heb fod yn unionlin yn gwella profiad gwyllo i rai pobl. Er enghraifft:

- Mae ymchwil defnyddwyr diweddar⁷ wedi archwilio persbectif gwylwyr o wasanaethau yn ôl y galw yn eu hystyr ddarlledu (DVRs, iPlayer a VoD) gan ddarganfod bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn disgwyl gwyllo 'gwell' teledu yn hytrach na rhagor o deledu wrth i wasanaethau yn ôl y galw esblygu.
- Comisiynodd Ofcom ymchwil ym mis Mawrth 2009 i wyllo teledu heb fod yn unionlin a phrofiadau gwyllo⁸. Fe wnaethom ddarganfod bod gwylwyr gwasanaethau yn ôl y galw yn hawlio ei fod yn gwella eu profiad gwyllo; cytunodd 78% o ddefnyddwyr gwasanaethau teledu yn ôl y galw eu bod '*yn gwyllo mwy o raglenni yr wyf yn eu mwynhau oherwydd gwasanaethau yn ôl y gal war y teledu*', dywedodd 80% o ddefnyddwyr DVR eu bod yn '*gwyllo rhagor o raglenni yr wyf yn eu mwynhau ar fy DVR*', a dywedodd 65% o ddefnyddwyr cynnwys teledu ar-

⁷ Ymchwil gan Essential Research <http://www.essentialresearch.co.uk/>

⁸ Gweler adran 3 am ragor o fanylion. Omnibws ffôn a gynhaliwyd gan GfK NOP ym Mawrth 2009.

lein eu bod *'yn gwyllo rhagor o raglenni yr wyf yn eu mwynhau oherwydd bod modd derbyn cynnwys teledu ar-lein'*.

- Mae data BBC Pulse⁹ yn dangos bod 44% o ymatebion i raglenni yn 2005 *'yn ymdrech arbennig i wyllo'* ond cynyddodd hyn i 49% yn 2008.
- Darganfu ymchwil Ofcom hefyd ym mis Mawrth 2009, ymysg y rhai gyda sianeli digidol, bod dwy ran o dair (68%) ohonynt yn dweud eu bod *'yn gwyllo mwy o raglenni yr wyf yn eu mwynhau oherwydd bod gennyf sianeli digidol'*, ac ymysg yr holl oedolion roedd dwy ran o bump yn cytuno bod *'ansawdd y rhaglenni ar sianeli BBC, ITV1, Channel 4 a Five yn gyffredinol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf'*.
- Pan ofynnwyd i bobl i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu yn anghytuno eu bod, *'yn gwerthfawrogi'r prif sianeli DGC a'u rhaglenni yn fwy nag a wnes yn y gorffennol'*, roedd 25% o'r oedolion yn cytuno. Roedd y rhai gyda theledu aml sianeli yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad hwn na'r rhai gyda theledu analog yn unig.

⁹ Mae arolwg Pulse yn banel ar-lein cynrychioliadol cenedlaethol BBC-GfK o dros 19,000 o wylwyr sydd yn casglu ymatebion ar raglenni a gafodd eu gwyllo y diwrnod blaenorol